


# Newyddion

Newyddion y CE - rhifyn gwanwyn 2014

## Cynnwys


- Ydych chi'n ymwybodol o'r newidiadau i'r Ffurflen Flynyddol?
- Helpwch ni i wella ein defnyddioldeb
- Croeso i'n Prif Weithredwr newydd
- Ydych chi'n gwybod beth yw gwrthdaro buddiannau?
- Golwg ar Adroddiadau Cydymffurfiaeth Weithredol (OCR)
- Beth os yw nad yw un o'ch ymddiriedolwyr yn gallu cyflawni ei rôl?
- Ydych chi'n gwybod popeth am y SORP newydd?
- Y ffurflen gofrestru ar-lein ddiwygiedig
- Ydy'ch elusen yn cefnogi confois cymorth neu'n rhoi cymorth dyngarol i argyfwng Syria?
- Ydych chi'n gwybod sut i ddiogelu eich elusen rhag twyll sieciau?
- Sut mae lobïo yn effeithio ar eich elusen?
- Ydych chi'n atebol am benderfyniadau codi arian eich elusen?
- Sut i ddelio â diffyg cynllun pensiwn


## Ydych chi'n ymwybodol o'r newidiadau i'r Ffurflen Flynyddol?

Mae Ffurflen Flynyddol 2014 ar gael i'w chwblhau ar ein gwefan. Mae hyn yn dilyn ymgynghoriad am yr wybodaeth y dylid ei chasglu a'i harddangos ar y Gofrestr Elusennau Ar-lein. Mae'r Ffurflen Flynyddol newydd yn cynnwys 7 maes newydd o gwestiynau. Mae'r rhain yn cynnwys a yw'r elusen yn talu ei hymddiriedolwyr am gyflawni dyletswyddau ymddiriedolwyr ac a yw'n berchen ar is-gwmni masnachu. Fel rhan o'n hymagwedd fwy llym at graffu ar gyfrifon, byddwn hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth ar gyfrifon elusennau ac a ydynt wedi cael eu harchwilio gan archwiliwr ariannol. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn helpu i gynnal ffydd a hyder cyhoeddus yn y sector trwy gael mwy o dryloywder, a bydd yn helpu'r cyhoedd i wneud penderfyniadau gwybodus am elusennau. Bydd y manylion ychwanegol hefyd yn golygu ein bod yn gallu rheoleiddio'r sector yn well.

Mae'n rhaid i bob elusen gofrestredig sydd ag incwm o fwy na £10,000 gwblhau'r Ffurflen Flynyddol o fewn 10 mis i ddiwedd eu blwyddyn ariannol. Rhaid i bob SCE, waeth beth fo'i incwm, gyflwyno ffurflen flynyddol. Rydym hefyd wedi darparu canllawiau i'r rhai sy'n cwblhau'r ffurflen, ac ar dudalen proffil yr elusen, i helpu'r cyhoedd i ddeall yr wybodaeth sy'n cael ei harddangos.

## Helpwch ni i wella ein defnyddioldeb

Nod ein gwasanaethau canllawiau a gwefan yw eich galluogi i gwblhau eich tasg yn rhwydd. I'n helpu yn hyn o beth, byddwn yn gweithio gyda defnyddwyr ein safle i brofi agweddau gwahanol. Fyddech chi'n barod i gwblhau ffurflen flynyddol eich elusen gydag aelod o staff y Comisiwn Elusennau? Gellir gwneud hyn yn un o swyddfeydd y Comisiwn, neu gallwn ni ddod atoch chi. E-bost usability@charitycommission.gsi.gov.uk

## Croeso i'n Prif Weithredwr newydd

Mae ein Prif Weithredwr Sam Younger yn camu i lawr ar ôl treulio pedair blynedd yn y Comisiwn, ac mae'n cael ei olynu gan Paula Sussex, sy'n dechrau ei chontract tair blynedd ar 30 Mehefin 2014. Mae Paula yn ymuno â ni o CGI, lle mae'n Uwch Is-lywydd, Sector Cyhoeddus ac yn aelod o fwrdd CGI UK. Mae'n fargyfreithwraig gymwysedig ac mae ganddi gysylltiad hir â Crisis, yr elusen ar gyfer pobl ddigartref sengl, lle y bu'n ymddiriedolwr am chwe blynedd.

## Ydych chi'n gwybod beth yw gwrthdaro buddiannau?

Mae ein gwaith achos yn dangos bod hwn yn faes anodd i ymddiriedolwyr, ond mae'n hollbwysig eu bod yn deall beth yw gwrthdaro buddiannau, a sut i ddelio â hyn, er mwyn gallu cyflawni eu dyletswyddau. Mae rhai mathau cyffredin o wrthdaro buddiannau yn cynnwys:

- ymddiriedolwyr sy'n cael eu penodi gan sefydliadau eraill (gwrthdaro teyrngarwch)
- rhoi taliadau neu fuddiannau i berthnasau agos ymddiriedolwyr
- ymddiriedolwyr sy'n gyfarwyddwyr neu'n weithwyr cwmni masnachu elusen.

Yn dilyn ymgynghoriad, rydym wedi diweddaru ein canllaw gwrthdaro buddiannau. Mae crynodeb byr wedi'i gynnwys ynddo, canllawiau mwy manwl a'r sail gyfreithiol i'r rhai sydd ei hangen, ynghyd ag enghreifftiau. Mae'r canllawiau newydd yn:

- cynnwys diffiniad diwygiedig o wrthdaro buddiannau
- cyflwyno dull syml, tri cham ar gyfer delio â gwrthdaro buddiannau
- tynnu sylw at y canlyniadau difrifol a all godi drwy gamdrafod gwrthdaro buddiannau ac mae'n amlinellu ein disgwyliadau rheoleiddio.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y canllawiau newydd ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am eich cyfrifoldebau o ran gwrthdaro buddiannau.

## Golwg ar Adroddiadau Cydymffurfiaeth Weithredol (OCR)

Cyhoeddwn adroddiadau achos gweithredol yn rheolaidd bellach sy'n ein helpu i esbonio pa effaith y mae ein gwaith achos yn ei chael a darparu gwersi i ymddiriedolwyr. Yn ddiweddar cyhoeddwyd OCR ar elusen sy'n gweithio yng Nghernyw ac yn darparu gwasanaeth eiriolaeth ac allgymorth i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Darllenwch trwy'r adroddiad byr hwn a gwnewch yn siŵr fod gan eich elusen bolisïau diogelu cadarn yn eu lle. Mae canllaw Diogelu hefyd i'w weld ar ein gwefan.

**Wyddoch chi....?** Mae City of London Police Overseas Anti Corruption Unit (OACU) wedi lansio fideo newydd, Consequences begin at home, i helpu sefydliadau i ddeall goblygiadau'r Ddeddf Llwgrwobrwyo a sut mae'n effeithio arnyn nhw. Mae'r fideo, y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant staff mewnol, ar gael yn rhad ac am ddim.

## Beth os yw nad yw un o'ch ymddiriedolwyr yn gallu cyflawni ei rôl?

Cyhoeddwyd adroddiadau ymchwiliad yn ddiweddar ar bedair o'r elusennau oedd yn cael eu hymchwilio fel rhan o ymchwiliad dosbarth i elusennau sydd heb gyflwyno eu cyfrifon. Mae'r pedwar adroddiad yn cynnwys ymatebion ymddiriedolwyr pan ofynnwyd iddynt pam oedd y cyfrifon yn hwyr. Roedd yr ymatebion yn cynnwys diffyg gweithredu gan gyfrifwyr, iechyd ymddiriedolwyr a chyfrifwyr a phroblemau teuluol.

Weithiau, bydd yn golygu ei bod hi'n anodd i ymddiriedolwr ymgymryd â'i rôl dros dro. Mae'r ymddiriedolwr yn parhau i fod yn atebol ac mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr eraill sicrhau eu bod yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol ar y cyd a sicrhau bod yr elusen yn parhau i redeg yn effeithiol. Os yw'r problemau yn parhau dylai'r ymddiriedolwr(wyr) a effeithir ystyried a ydynt yn gallu parhau yn eu rôl neu beidio.

**Gwrandewch ar ein...**podlediadau sain newydd sy'n ceisio helpu ymddiriedolwyr elusen i ddeall eu dyletswyddau o dan y gyfraith elusennau. Gan roi sylw i astudiaethau achos go iawn a rhai ffug, mae uwch aelodau staff y Comisiwn yn siarad â gwrandawyr am Reolaethau Ariannol Mewnol a Gwrthdaro Buddiannau.

## Ydych chi'n gwybod popeth am y SORP newydd?

Yn ddiweddar cyhoeddwyd dadansoddiad o'r ymgynghoriad ar y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) drafft newydd. Mae'r SORP yn darparu fframwaith ar gyfer cyfrifon ac adroddiadau elusennau, ac mae'n rhaid i bob elusen sy'n paratoi eu cyfrifon ar sail 'gwir a theg' (hefyd yn cael ei alw'n gyfrifon croniadau) ei ddilyn. Nid yw'r SORP yn gymwys i elusennau bach sy'n dewis paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau.

Buom yn cydweithio â Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) a'r Pwyllgor SORP sector-seiliedig i ysgrifennu SORP newydd i ddarparu ar gyfer y Safon Adrodd Ariannol newydd (FRS102), a helpu elusennau sy'n dewis adrodd o dan y Safon Adrodd Ariannol i Endidau Llai (FRSSE). Mae'r penderfyniadau a wnaed yn cynnwys:

- mae'n rhaid i bob elusen sy'n cyflwyno cyfrifon croniadau o dan y SORP ddatgelu tâl staff mewn bandiau dros £60,000, gydag elusennau mwy yn datgelu eu polisi tâl ar gyfer uwch aelodau staff yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr
- bydd dau SORP: un yn seiliedig ar y FRS102 newydd a'r llall ar y FRSSE. Gall elusennau ddewis pa safon gyfrifyddu a SORP y maent yn ei defnyddio yn ôl maint yr elusen.

Bydd y ddau SORP newydd yn gymwys i gyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015.

## Y ffurflen gofrestru ar-lein ddiwygiedig

Mae ein ffurflen gofrestru ar-lein ddiwygiedig (OLAR) yn cael ei lansio y mis hwn. Rydym wedi ailwampio'r system weithredu i gefnogi profiad y cyhoedd pan fyddant yn gwneud cais i gofrestru elusen, ac wrth i ni ddelio â cheisiadau sydd wedi'u cwblhau. Bydd y ffurflen newydd yn cael ei chefnogi gan ganllawiau diwygiedig ar sefydlu a chofrestru elusen. Mae hefyd yn cynnwys cwestiynau newydd sy'n gysylltiedig â'n canllawiau budd cyhoeddus. Bydd y diwygiadau hyn yn helpu ymgeiswyr i esbonio'n glir ddibenion eu sefydliad, a sut y mae'n gweithredu er mwyn hyrwyddo'r dibenion hynny er budd cyhoeddus. Bydd y ffurflen newydd ar gael cyn bo hir ar ein gwefan.

## Ydy'ch elusen yn cefnogi confois cymorth neu'n rhoi cymorth dyngarol i argyfwng Syria?

Os felly, darllenwch ein rhybudd rheoleiddio ar Syria. Mae perygl y gall confois cymorth elusennol i Syria gael eu camddefnyddio at ddibenion anelusennol, gan gynnwys helpu milwyr dramor Prydeinig i deithio i'r ardal.

Os ydych yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw gonfoi, mae'n rhaid i chi:

- sicrhau eich bod yn cymryd camau priodol i sicrhau bod y cymorth a rowch yn cael ei ddefnyddio at ddibenion dyngarol cyfreithlon yn unig
- eich bod yn gallu rhoi cyfrif am ei ddefnydd priodol
- cymryd camau rhesymol i warchod yn erbyn camddefnydd, gan gynnwys archwilio cefndir unrhyw wirfoddolwyr sy'n teithio gyda'r confoi.

## Ydych chi'n gwybod sut i ddiogelu eich elusen rhag twyll sieciau?

Mae Charity Finance Group a'r Cheque and Credit Clearing Company yn y Payments Council wedi datblygu canllawiau i elusennau ar sut i osgoi twyll sieciau. Mae ymchwil diweddar yn dangos bod dros 90% o elusennau yn ysgrifennu sieciau yn rheolaidd, ac mae'r Daflen Ffeithiau yn rhoi gwybodaeth ar sut i ddiogelu eich sefydliad.

## Sut mae lobïo yn effeithio ar eich elusen?

Pasiwyd Deddf Tryloywder Lobïo, Ymgyrchu gan Grwpiau Di-blaid a Gweinyddu Undebau Llafur 2014 (y Ddeddf Lobïo) ar 30 Ionawr 2014. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn rheoleiddio'r rheolau y mae'n rhaid, o dan y gyfraith etholiadol, i ymgyrchwyr di-blaid eu dilyn yn y cyfnod yn arwain at etholiad. Daw'r rhain i rym ar 19 Medi 2014.

Er na all elusennau sy'n ymhél ag ymgyrchu a gweithgareddau gwleidyddol byth ymwneud â gweithgareddau plaid wleidyddol, gall fod rhai amgylchiadau pan fydd angen iddynt gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol. Mae'r Ddeddf Lobïo yn cyflwyno rhai newidiadau i'r gofyniad hwn, a'r rheolau sy'n gymwys os oes angen cofrestru.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cyhoeddi canllawiau i elusennau ym mis Gorffennaf a bydd cyswllt i'n gwefan ni hefyd. Os yw'ch elusen yn ymgyrchu, gwnewch yn siŵr eich bod yn bwrw golwg ar y canllawiau, yn ogystal â darllen ein canllawiau ni.

## Ydych chi'n atebol am benderfyniadau codi arian eich elusen?

Yn ôl arolwg DU diweddar o godi arian a chyllid elusennol, roedd bron naw o bob deg ymatebwr o'r farn y bydd y flwyddyn nesaf yn dod â mwy o graffu a diddordeb o du'r cyfryngau. Gyda'r sylw wedi'i hoelio ar sut mae arian yn cael ei godi, mae'n rhaid i elusennau fod yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithgareddau codi arian.

Fodd bynnag, mae'r un arolwg yn dangos bod bron hanner yr elusennau (49%) wedi cymryd camau dros y flwyddyn ddiwethaf i wella lefelau tryloywder a datgelu gwybodaeth ariannol. Mae hefyd mwy o ymrwymiad at arfer gorau a chodi arian atebol, ac mae 225 o elusennau wedi cytuno i huanreoleiddio codi arian yn 2013.

Darllenwch yr arolwg a gwnewch yn siŵr fod eich elusen yn agored ynghylch ei harferion codi arian, wedi ymrwymo i arferion gorau ac yn barod i ateb cwestiynau a rhoi sylw i unrhyw bryderon sydd gan y cyhoedd.

Mae rhagor o wybodaeth gan FRSB am hunanreoleiddio.

## Sut i ddelio â diffyg cynllun pensiwn

Mae cyfrifon elusennau ar gael ei'r cyhoedd eu gweld ar ein gwefan. Bob blwyddyn, byddwn yn monitro sampl i wirio eu bod yn cydymffurfio â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy Elusennau (SORP) ac adnabod problemau sydd o bryder rheoleiddio. Rydym yn cyhoeddi cyfres o adroddiadau ar ein casgliadau, a fydd yn helpu ymddiriedolwyr i reoli'r risgiau y mae eu helusen yn eu hwynebu, a gwella safonau adrodd.

Mae'r adroddiad cyntaf ar gynlluniau pensiwn. Mae ein casgliadau yn atgoffa ymddiriedolwyr elusennau sydd â chynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio y dylai fod darlun clir ganddynt o rwymedigaethau ariannol eu helusen a chynllun i reoli unrhyw gynnydd mewn cyfraniadau yn y dyfodol. Dylai ymddiriedolwyr ddefnyddio adroddiad blynyddol yr elusen i roi gwybodaeth i randdeiliaid am unrhyw ddiffyg yn y cynllun pensiwn a'r camau sy'n cael eu cymryd i ddelio â hyn.

Os oes diffyg cynllun pensiwn gan elusen, dylai'r ymddiriedolwyr geisio cyngor proffesiynol prydlon ar sut i weithredu. Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi cyhoeddi canllawiau i helpu cyflogwyr i ddelio â'u diffygion cynllun pensiwn.